mwynhau'r sesiwn gyda'r cwmni yn neuadd y pentref.

- Cafodd blwyddyn 6 gyfle i gymryd rhan mewn gweithdy crochenwaith yng Nghanolfan y Celfyddydau. Edrychwn ymlaen i weld eu cynnyrch.

- Cafodd blwyddyn 5 a 6 gyfle hefyd i ymweld â gweithdy Gwyddoniaeth ac Egni yn y Brifysgol.

- Aeth criw o flwyddyn 4 i aros am benwythnos yng Nghanolfan Kingswood gyda Mr John yn y bws mini. Yn ôl pob sôn cafwyd hwyl gyda amrywiol weithgareddau.

- Cafwyd Ffair Lyfrau yn yr ysgol. Yn amlwg mae darllenwyr o fri ym Mhenrhyn-coch.

## Llongyfarchiadau

Mae'r tri thîm cwis llyfrau (dau ail-iaith ac un iaith gyntaf) drwyddo i'r rownd olaf. Pob lwc i chi gyd.

## Pêl-droed

Mae ein tîm 8 bob ochor drwyddo i rownd olaf cystadleuaeth "Caprisun" ym Mhort Talbot. Pob hwyl i bawb yn y gystadleuaeth.

## Sêr y teledu

Bu cwmni teledu yn ffilmio yn yr ysgol unwaith eto. Dewiswyd rhai plant ganddynt ac fe'i gwelir ar y sgrîn yn ystod mis Ebrill – felly cadwch eich llygaid ar agor!